COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 5ed o RHAGFYR 2022 YN NEUADD PONTIETS AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Ian Evans (Cadeirydd yn y gadair),Delyth Thomas,Tyssul Evans, Heddwyn Jones, Linda Williams, Tracey James, Caroline Williams,Alan Lewis, y Cynghorwr Sir Meinir James a'r Clerc,Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Aled Williams, Geraint Rosser, Margaret Rees, Meic Bowen a'r Cynghorwr Sir Meinir James.

2924 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd yn arbennig Mrs Elan Morgan o Fenter Cwm Gwendraeth Elli. Cafwyd trafodaeth lawn ynglŷn â'r ffordd i ymlwybro tuag at grantiau er mwyn sicrhau prosiectau yn y dyfodol. Diolchodd y Cadeirydd iddi am ei chyfraniad arbennig.

2925 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 07/11/2022 fel rhai cywir.

2926 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 2905 - Clwb Cymdeithasol Carwe. – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.
Tud 1. Cofnod Rhif 2905 - Cofeb Rhyfel Pontiets – Arhoswn am ymateb gan y 'War memorial Trust'.
Tud 1. Cofnod Rhif 2905 - Llwybr Treftadaeth – Arhoswn am ymholiadau pellach.
Tud 1. Cofnod Rhif 2905 – Sedd yng Ngharwe – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.
Tud 1. Cofnod Rhif 2905 - Meddygfa'r Sarn,Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Feddygfa.
Tud 1. Cofnod Rhif 2905 – Cysgodfa Bys – Tir Dafydd,Pontiets – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.
Tud 1. Cofnod Rhif 2905 – Rhodfa Ceffylau – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

2927 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn – Coeden Nadolig - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

Cynghorwr Tyssul Evans, Is-gadeirydd yn y gadair

Cynghorwr Ian Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2928 Neuadd Carwe - .Penderfynwyd danfon cyfraniad o £800.

2929 Carway Short Mat Bowls - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorwr Ian Evans, Cadeirydd yn y gadair

2930 Moreia Meinciau – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2931 Bethel Carwe – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2932 Cylch Meithrin Carwe – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Ceisiadau Cynllunio

2933

a) Rhif y Cais - PL/04769 - Tŷ'r Stewart, Llangyndeyrn - Les Gwyliau - Dim Gwrthwynebiad a'l Chefnogi.
b) Cynghorwr Caroline Williams yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.
Rhif y Cais – PL/05047 – Panteg, Llangyndeyrn – Storio 'Slurry' ychwanegol – Dim Gwrthwynebiad.
Caroline yn ail ymuno a'r cyfarfod.
c) Rhif y Cais - PL/05088 - Tir nes at Bererin, Carwe - Tŷ Annedd - Dim Gwrthwynebiad ar yr amod bod y cyflwr gweledig yn glir.
d) Rhif y Cais - PL/05114 – Brynbach, Crwbin – Stordy a Gweithdy i'r Ardd - Dim Gwrthwynebiad.

.**Gwaharddiad y Cyhoedd**

2934 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol.

Cynghorwr Tyssul Evans, Is-gadeirydd yn y gadair

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

Cynghorwr Ian Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2935 Derbyniwyd adroddiadau ariannol Tachwedd. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorwr Ian Evans, Cadeirydd yn y gadair

2936 Is-bwyllgor Cyllid – 05/12/22 - Wedi trafodaeth lwyr, penderfynwyd derbyn y canlynol :-

1. Cyllideb 2023/2024 – Penderfynwyd codi'r grantiau canlynol :
   A) Parciau - £800
   B) Neuaddau - £900
   C) Capeli ag Eglwysi - £700

2. Gwneud ymholiadau ymhellach ynglŷn â gosod panelau creu trydan ar Doiledau Cyhoeddus y Meinciau.

3. Presept 2023/2024 – Wedi trafodaeth lwyr a chlir, cynigwyd gan Heddwyn Jones ac eiliwyd gan Caroline Williams ein bod yn codi'r Praesept 15% am y flwyddyn 2023 – 2024.

2937 Cronfa Tlodi - Cafwyd adroddiad gan y Clerc bod cais wedi eu gosod gerbron y Cyngor Sir am nawdd ariannol o £5000 er mwyn sefydlu darparu bwydydd i Henoed a'r Difreintiedig yn y Plwyf. Os bydd y cais yn llwyddiannus fe fydd y Cyngor Cymuned yn gosod £5000 tuag at y fenter hefyd.

Cyfarfod nesaf:- 9fed Ionawr 2023 - Neuadd Pontiets

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……